CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**10 Mawrth 2023**

**9:00 am – 11:00 am**

**Dros Zoom**

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Aled Davies (yn bresennol dros Dylan Owen), Siobhan Edwards (yn bresennol dros Alwyn Williams), Ann Woods, Catrin Roberts, Y Cyng Dilwyn Morgan, Y Cyng Elen Heaton, Y Cyng Christine Jones, Y Cyng Alun Roberts, Y Cyng John Pritchard, Y Cyng Liz Roberts, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Fôn Roberts, Jenny Williams, Karen Higgins (yn bresennol dros Gill Harris), Liz Grieve, Meinir Williams-Jones, Michelle Greene, Neil Ayling, Nicola Stubbins, Rhun ap Gareth, Roger Seddon, Shan Lloyd Williams, Sian Tomos, Steve Greyston (yn bresennol dros Libby Ryan-Davies), Teresa Owen |
| Ymddiheuriadau: | Dr Lowri Brown, Libby Ryan-Davies, Gill Harris, Dave Hughes, Dylan Owen |
| Hefyd yn bresennol: | Vicky Jones, Pennaeth Strategaeth a Datblygiad Integredig, Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC<br>Lisa Goodier, Strategaeth a Datblygiad Phortffolio Integredig, Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC |

| Eitem | | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| 1. | Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau<br>Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.<br><br>Yn anffodus, oherwydd y tywydd, nid yw'r bwrdd wedi gallu cyfarfod wyneb yn wyneb heddiw. Gwneir trefniadau i gyfarfod wyneb yn wyneb yn y dyfodol.<br><br>Ar ran Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC), diolchodd NS i Mary Wimbury am gadeirio'r Bwrdd drwy gyfnod digynsail dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae Mary wedi cynrychioli'r Bwrdd mewn cyfarfodydd amrywiol gyda Llywodraeth Cymru a fforymau partneriaeth eraill mewn ffordd gref, ystyriol ac angerddol. | |
| 2. | Strategaeth Ddrafft Law yn Llaw at Iechyd Meddwl<br>Roedd VJ a LG yn bresennol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.<br>(Atgoffodd LG y cyfarfod am y daith hyd yma a bod pedwar gweithdy wedi cael eu cynnal dros y misoedd diweddar. | |

Cafodd dros 300 o unigolion eu gwahodd i gyfrannu at y gweithdai, oedd y cynnwys llais o brofiad bywyd. Roedd y gweithdy diweddaraf ar 28.2.2023 yn cynnwys adrodd yn ôl i gydweithwyr oedd wedi mynychu gweithdai blaenorol er mwyn cael adborth a myfyrio i sicrhau bod y gwaith yn cyfateb ac yn trosi i gyflawni gwasanaethau i breswylwyr/partneriaid.

T4MH Presentation update to RPB.pptx

Roedd canlyniad y gweithdai yn darparu:
Gweledigaeth – '*Rydym eisiau i bobl Gogledd Cymru fod â'r iechyd meddwl a'r lles gorau bosib' fel maen nhw'n ei ddiffinio. Mae hyn yn golygu bod pobl yn cael y gefnogaeth maent ei hangen, pryd a lle maent ei hangen'.*

Gwerthoedd

- Trugaredd a Charedigrwydd
- Cydweithio a rhannu
- Herio a thryloywder
- Ystwythder ac arloesedd
- Gwneud ein gorau glas

Ac ystod o Egwyddorion sylfaenol.

Cytunodd cydweithwyr yn gryf â'r uchod i gyd yn y gweithdy olaf a bydd yn cael ei gynnwys yn y strategaeth ddrafft.

Eglurodd LG mai strategaeth dros dro fydd hi, a gynhelir i ddisgwyl am rifyn cenedlaethol newydd o strategaeth Iechyd Meddwl LlC, fydd yn cael ei lansio yn ystod Pasg 2024.

Creodd y gweithdai bedair blaenoriaeth strategol, yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl Gogledd Cymru. Byddant yn ffurfio'r llinyn arian yn y gwaith a ddarperir dros y 12 mis nesaf a thu hwnt:

1. Y gefnogaeth gywir wrth ofyn y tro cyntaf
2. Blaenoriaethu argaeledd gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal
3. Gwella iechyd meddwl a lles ein gweithlu
4. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.

Pan fydd wedi'i chwblhau, bydd y Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn cael ei chyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ar 21.4.2023 i gytuno arni, ei dosbarthu i aelodau BPRhGC a'i chyflwyno er mwyn ei hardystio yng nghyfarfod mis Mai BPRhGC cyn lansio'r strategaeth a'r cynllun cyflawni.

Mae rheoli a darparu'r Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd

| | | |
|---|---|---|
| | Meddwl yn hynod o bwysig, gyda chytundeb i sefydlu grŵp rhanbarthol fydd yn goruchwylio ac yn ystyried agweddau gweithredol rhoi'r Strategaeth ar waith gan y Timau Integreiddio Lleol cyn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.<br><br>Darperir y Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl drwy gynllun cyflawni clir a bydd y Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn atebol. Mae cylch darparu 100 diwrnod wedi cael ei drafod o ran rhywfaint o'r gwaith i gasglu momentwm. Bydd yr adborth o'r gweithdai yn cael ei gasglu a'i drafod ymhellach yn y Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i sicrhau darpariaeth y strategaeth.<br><br>Nododd RS ddiddordeb yn y rôl a ragwelir ar gyfer y pwyllgor craffu i fonitro gwaith y Timau Gweithredu Lleol a'r cynllun cyflawni. Holodd RS a oedd ffactorau llwyddiant critigol wedi cael eu hystyried yn ystod y gwaith o ddrafftio'r strategaeth, hynny ydi, a oes angen i elfennau o'r strategaeth ddigwydd er mwyn sicrhau llwyddiant cyflawni'r strategaeth.<br>Cytunodd VJ y gallai'r ffactorau llwyddiant critigol fod yn bosibl, fodd bynnag, byddai angen i weithio mewn partneriaeth ac ar y cyd fod wrth wraidd y gwaith er mwyn dylanwadu a bod yn effeithiol a gwerthuso'r gwaith yn y dyfodol, a byddai angen trafodaeth bellach ar y mater hwn.<br><br>Nododd EH mor bwysig oedd peidio â cholli golwg ar y claf yn ystod y gwaith cymhleth hwn a phwysigrwydd gweithio ar sail partneriaeth ac yn integredig.<br><br>Soniodd TO ei bod wedi mynychu cyfarfod  â Llywodraeth Cymru am y Strategaeth Genedlaethol Iechyd Meddwl a bod y cynllun 6 cham yn cynnig cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori. Dywedodd ei bod yn galonogol nodi bod y gwaith pontio oedd ar y gweill yng Ngogledd Cymru ar y Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn cynnwys synergedd â'r strategaeth genedlaethol newydd a chydnabu'r gwaith anferthol a wnaed gan LG a VJ.<br><br>Nododd LizG ddiddordeb penodol yn y flaenoriaeth strategol 2 - *Blaenoriaethu argaeledd gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal* a nododd fanteision cynnwys y Strategaeth mewn gwaith ymyrraeth gynnar oedd yn digwydd y tu allan i wasanaethau, hynny ydi, mewn gwasanaethau tai, gwasanaethau ieuenctid Awdurdodau Lleol, gwasanaethau llyfrgell ac ati.<br>Nododd VJ y bydd cydnabyddiaeth drwy'r Strategaeth o bwysigrwydd y gymuned/preswylwyr a chefnogi'r naill a'r llall o'r cyffredinol i ddarpariaeth gwasanaeth.<br><br>Diolchodd y cadeirydd i VJ a LG am y wybodaeth ddiweddaraf ar y Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd | |

| | | |
|---|---|---|
| | Meddwl. Bydd y Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl derfynol yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod mis Mai BPRhGC. | |
| 3. | <u>Is-gadeirydd BPRhGC</u><br>Rhoddodd CR y wybodaeth ddiweddaraf am y broses enwebu is-gadeirydd.<br><br>Eglurodd CR fod BPRhGC wedi cytuno’n ddiweddar i newid y Cylch Gorchwyl i gynnwys dau is-gadeirydd yn hytrach nag un. Yn dilyn dosbarthu neges ddiweddar i ofyn am enwebiadau ar gyfer is-gadeirydd o sector y bwrdd iechyd a’r sector anstatudol, cafwyd nifer o enwebiadau ar gyfer y ddau, felly mae angen cynnal pleidlais.<br><br>Oherwydd y datblygiadau yn BIPBC a, gyda chytundeb BPRhGC, cynigiodd CR y dylid oedi am gyfnod o 6 mis cyn penodi is-gadeirydd o sector y bwrdd iechyd, ac i symud ymlaen â’r bleidlais am is-gadeirydd o’r sector anstatudol.<br><br>Cytunodd BPRhGC â’r cynnig hwn i symud ymlaen â phleidlais am is-gadeirydd o’r sector anstatudol, ac i ailedrych ar y bleidlais ar gyfer is-gadeirydd sector y bwrdd iechyd mewn chwe mis. | Is-gadeirydd BIPBC - rhaglen mis Medi - RW |
| 4. | <u>BPRhGC – Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol Ddrafft 2023–24</u><br>Bydd Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol (RhGD) BPRhGC 2023-2024, eitem sefydlog ar y rhaglen, yn parhau i esblygu wrth i gynnydd gael ei wneud drwy gydol y flwyddyn. Anogir aelodau’r BPRhGC i gyfrannu at y RhGD yn enwedig o ran adroddiadau’r gorffennol / cynigion newydd i gael eu cynnwys yng nghynllun 2023-24.<br><br>Cynigiwyd y diweddariadau canlynol ar gyfer RhGD BPRhGC 2023-24:<br>• Gofyniad LIC - Pellach, Cyflymach a Chryfach (PCC) - Trafodaeth gychwynnol i sicrhau bod holl aelodau’r Bwrdd yn ymwybodol o’r gofyniad, diweddariadau rheolaidd hyd at yr hydref a diweddariad bob 6 mis ar ddatblygiadau wedi hynny.<br>• Rhaglen Anableddau Dysgu - diweddariadau ym mis Mehefin a Rhagfyr 2023<br>• Bwrdd Herio Gogledd Cymru - darparu diweddariad unwaith yn unig i’r bwrdd<br>• Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol - adroddiad blynyddol<br>• Bwrdd Gweithlu - diweddariad blynyddol i’r Bwrdd<br>• Bwrdd Comisiynu - diweddariad blynyddol i’r Bwrdd<br>• Bwrdd Diogelu - diweddariad blynyddol i’r Bwrdd<br>• Gwaith Cenedlaethol ar Ddileu Elw o Ofal Plant - BPRhGC i gael gwybod am y gwaith sy’n mynd ymlaen a’r risgiau | Rhoi gwybod am unrhyw ddiweddariadau ychwanegol i CR/RW<br><br>Trafodaeth gychwynnol - Ebrill 23<br><br>RW i gynnwys y cyfan ar y RhGD |

| | | |
|---|---|---|
| | • Blaenoriaethau Cynlluniau Lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru<br>• Fforwm Mwy Na Geiriau – adroddiad blynyddol i'r Bwrdd<br>• Gofalwyr/Gofalwyr Di-dâl – adroddiad blynyddoli'r Bwrdd<br><br>Nododd FR nad oedd is-grŵp Plant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i sefydlu i dynnu'r holl raglen plant oddi wrth BPRhGC a chynigiodd y dylai'r Bwrdd fod yn ymwybodol o drawma o fewn Plant a Phobl Ifanc a bod yr eitem hon yn cael ei chyflwyno'n uniongyrchol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn hytrach na'r is-grŵp plant.<br><br>Rhoddodd SG wybod am gyllid Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHP) £900,000 gan Lywodraeth Cymru i Ogledd Cymru a bydd y cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Arweinyddiaeth a BPRhGC cyn eu cyflwyno i LlC erbyn 3.5.2023. Bydd y cynigion yn rhoi gwybod i LlC am y gwaith sy'n cael ei wneud a bydd yn gwasanaethu elfen o FFS, gan symud adnoddau o wasanaethau acíwt i'r gymuned.<br><br>Diolchodd CR i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol am eu mewnbwn ac am ystyried rhaglenni i ddod, ac mor bwysig oedd bod y bwrdd yn ystyried holl eitemau'r rhaglen ar y cyd. | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mis Ebrill - RW |
| 5. | <u>Diweddariad BIPBC</u><br>Roedd Karen Higgins, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol BIPBC yn bresennol ar ran Gill Harris, i roi diweddariad ar BIPBC.<br><br>Roedd Gweinidog Iechyd Llywodraeth Cymru, Eluned Morgan, wedi rhoi BIPBC mewn mesurau arbennig yn ddiweddar ac mae Aelodau Annibynnol y Bwrdd wedi ymddiswyddo.<br><br>Mae cadeirydd newydd wedi'i benodi ac mae Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd yn cael eu penodi i ddiogelu prosesau BIPBC, sy'n hanfodol i fusnes parhaus. Bydd rhagor o wybodaeth ar fframwaith y goblygiadau a manylion eraill yn cael eu rhannu pan fyddant wedi eu derbyn.<br><br>Canmolodd KH bawb a gymerodd ran mewn darn eithriadol o waith yn ddiweddar oedd yn cynnwys tua 2,500 o blant a phobl ifanc, ar ymgysylltu ar draws Gogledd Cymru, tuag at lansio Siarter y Plant ar 26.4.2023. Cynigiodd KH, yn dilyn lansio'r Siarter Plant a Phobl Ifanc ym mis Ebrill, y dylid gwahodd y cyfranwyr i gyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol i gyflwyno'r gwaith ar y siarter. | Rhaglen yn y dyfodol - RW |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | <u>Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf – Chwefror 2023</u><br>Cytunwyd arnynt fel cofnod cywir o’r cyfarfod ar 10.2.2023.<br><br>Dau gam gweithredu:<br><br>Cynnwys TO ar y rhestr ymddiheuriadau.<br><br>Cywiro eitem 6 ar y rhaglen - diweddariad BIPBC i ddarllen: *Mae Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru bellach wedi tynnu Gwasanaethau Pobl Ifanc Gogledd Cymru o ymyrraeth wedi'i thargedu, sy’n gydnabyddiaeth ardderchog o’r cynnydd a wnaed. Mae bron bob claf yn cael gofal yng Ngogledd Cymru yn hytrach na’u hanfon i rywle arall, sy’n tynnu llwyth o bwysau oddi ar gleifion a’u teuluoedd.* | RW<br><br>RW |
| 7. | <u>Cynllun Ardal Ranbarthol BPRhGC</u><br>Cyflwynodd CR Gynllun Ardal BPRhGC, gofyniad dan arweiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Rhan 9 ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sydd wedi’i osod mewn dau ran:<br>• Y cynllun strategol<br>• Y cynllun cyflawni<br><br>RPB Area plan March 2023.pptx<br><br>Diben y Cynllun Ardal yw nodi sut mae’r partneriaid yn bwriadu ymdrin â’r anghenion a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a’r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad. Bydd yn ddogfen lefel uchel o’i gymharu â’r gwaith sylweddol a wnaed ar y ddau, a gwblhawyd yn y 12 mis diwethaf.<br><br>Mae’r Cynllun Ardal yn gynllun 5 mlynedd. Roedd y cynllun blaenorol yn ymestyn o 2017 – 2023 a bydd y Cynllun Ardal newydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2023.<br><br>Rhoddodd CR:<br>• Grynodeb o’r arweiniad a gyhoeddwyd gan LlC, gan ganolbwyntio ar y camau gweithredu yn erbyn pob un o’r Grwpiau Poblogaeth, sydd hefyd yn cael eu defnyddio i lywio’r Rhaglen Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF)<br>• Grynodeb o’r ddogfen yn crynhoi’r prif negeseuon sy’n codi o’r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a’r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad<br>• Y themâu trawsbynciol sydd wedi codi i lywio’r Cynllun Ardal<br><br>Mae strwythur y Cynllun Ardal Rhanbarthol wedi’i rannu yn:<br>Rhan A: Cynlluniau ar gyfer yr hyn y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio arno gyda’i gilydd, y grwpiau poblogaeth sy’n cael eu cynnwys yn y gwaith RIF, | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfeiriad gan LIC ac ymgynghoriad â phartneriaid.<br>Rhan B: yn canolbwyntio ar yr ymateb i'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth - o ran cyfeirio pobl i ddod o hyd i wybodaeth, wrth osgoi unrhyw ddyblygu, gyda chysylltiadau pellach at gynlluniau eraill yn seiliedig ar adborth ar y drafft.<br>Rhan C: Canfyddiadau cyffredinol a sut yr eir i'r afael â'r rhain<br>Rhan D: yn rhoi gwybodaeth am ddolenni i gael gwybod mwy am y gofal a chefnogaeth sydd ar gael gan yr holl bartneriaid yng Ngogledd Cymru.<br><br>Mae'r Cynllun Ardal Rhanbarthol yn y cam ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd, mae copi o'r ddolen i'r holiadur wedi ei anfon at aelodau'r Bwrdd ar 3.3.2023 ac mae'r cyfnod ymgynghori yn cau ar 24.3.2023.<br><br>Wedyn bydd y drafft yn cael ei ddiweddaru i gynnwys yr addasiadau terfynol a bydd yn cael ei ddosbarthu i aelodau BPRhGC i'w gymeradwyo'n derfynol cyn iddo gael ei gyhoeddi mor agos â phosibl at 1.4.2023 i fodloni'r dyddiad cau statudol. Nododd CR fod rhai partneriaid wedi gofyn am gael ymestyn y dyddiad hwn er mwyn iddynt allu ymgysylltu'n llawn yn eu sefydliadau eu hunain, mae hyn yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.<br><br>Ail ran y cynllun fydd yr angen i gael Cynllun Cyflawni blynyddol, fydd yn dangos sut mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ymdrin â'r materion a godwyd yn y ddogfen strategol.<br><br>Yn debyg i'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad, nododd CR y bydd y Cynllun Ardal Rhanbarthol yn cael ei weld fel dogfen fyw y gellir ei diweddaru a'i hadnewyddu'n barhaus am y 5 mlynedd nesaf.<br><br>Cydnabu RS y gwaith sylweddol o gasglu'r holl wybodaeth a chyfeirio a byddai'n cefnogi achos i gynnwys ffactorau llwyddiant critigol - pa ffactorau allai atal gweithredu'r Cynllun Ardal i fod yn ddefnyddiol ac i helpu cydweithio ymhlith partneriaid.<br>Nododd CR y bydd y ffactorau llwyddiant critigol yn wahanol yn dibynnu ar y ffrwd waith a'r rhaglen waith a ffrydiau ariannu gwahanol. Bydd recriwtio a chadw yn ffactor llwyddiant critigol sy'n mynd yn erbyn pob ffrwd waith a rhaglen, dan bob grŵp Poblogaeth ac Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad. Elfen arall yw sut bydd y cynllun strategol yn cael ei ddarparu a'r elfen graffu gan BPRhGC, byddai angen cynnwys hyn fel adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.<br>Tynnodd MW sylw hefyd at y mater o ran y gweithlu, yn enwedig ar gyfer y sector darparu, oedd yn nodwedd gref o'r | Rhaglen y Cynllun Cyflawni – agenda Mehefin/Medi/Rhagfyr/ Mawrth |

Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad. Gan fod y gweithlu yn ffactor mor bwysig o ran darparu gwasanaeth ac yn gysylltiedig â chostau gwasanaeth, ar hyn o bryd o dros hanner yr Awdurdodau Lleol sydd eisoes wedi gosod ffioedd yng Nghymru, bydd gan y ddau isaf yng Ngogledd Cymru effaith ar y gallu i dalu, cadw a recriwtio staff ac mae hyn yn berthnasol i'r sectorau gofal cartref a chartrefi gofal o ran gwasanaethau cofrestredig.
Ymddengys nad yw'r Gweithlu wedi'i gynnwys â'r un brys yn y Cynllun Ardal Rhanbarthol.

Nododd CR fod Cynllun Cyflawni'r Cynllun Ardal yn cynnwys cam allweddol am y Gweithlu, i gwmpasu gwaith o'r rhaglen RIF ar y camau gweithredu gweithlu am y 12 mis nesaf - i gael eu cytuno arnynt yn y BGGC a BPRhGC.  Nid yw'r adran ar gomisiynu wedi cael ei gwblhau eto a bydd yn cael ei orffen cyn bo hir.

<u>Trafodaeth Strategol BPRhGC ar siapio gwaith partneriaeth a blaenoriaethau</u>

Arweiniodd CR aelodau'r Bwrdd drwy ddrafft cyntaf y Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Ardal Strategol. Mae'r Cynllun Cyflawni yn waith sydd ar y gweill ac anogir aelodau'r BPRhGC i adrodd yn ôl i'r tîm rhanbarthol.

NW Regional Area Plan - annual action p

Tynnodd CR sylw at y cam gweithredu a gyflwynwyd yn erbyn y ffrydiau gwaith, a bydd dolenni at ddogfennau allweddol yn cael eu hychwanegu fel iddynt gael eu dynodi fel rhan o'r gwaith hwn.

Roedd sylwadau gan y BPRhGC yn canolbwyntio ar:

Nododd RS y byddai'n ddefnyddiol cael gweld cofnodion cyfarfodydd PCPG i ddysgu sut mae'r gwaith yn effeithio ar gomisiynu. Bydd y berthynas â PCPG yn allweddol i lwyddiant y Cynllun Ardal Strategol.
Dywedodd KH bod gwaith y PCPG yn dal i fod yn ei gam cychwynnol ac mai holl bwrpas y PCPG oedd gweithio ar y cyd. Nododd KH bryder hefyd am y sylw am ACD ac mai holl bwrpas ACD yw cydweithio ar lefel leol.
Cadarnhaodd CR mai'r gwaith hwn yw un o flaenoriaethau allweddol y cynllun cyflawni ac y bydd gwaith yn y 12 mis nesaf yn canolbwyntio ar broses adrodd y PCPG a'r BPRhGC

Nododd TO ymwybyddiaeth am ddau fater i'w hystyried yn y cynllun cyflawni, sef gwaith gwerth cymdeithasol ac

| | | |
|---|---|---|
| | unigrwydd ac i ystyried y darn hwn o waith ochr yn ochr â'r blaenoriaethau ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.<br>Cytunodd CR y byddai'r ddwy elfen yn cael eu hymgorffori i'r cynllun cyflawni.<br><br>Nododd MWJ fod y darn hwn o waith yn dangos sut mae tîm gweddol fychan yn gallu bodloni'r her a gwneud synnwyr o swm anferthol o wybodaeth a phwysigrwydd cefnogi'r tîm. Gan y bydd hwn yn ddarn o waith hirdymor, awgrymwyd y dylai'r gwaith gael ei gyfeirio at swydd yn hytrach nag unigolyn i sicrhau bod adborth yn cael ei ddarparu yn y tymor hwy. Cytunodd CR y byddai'r cynnig hwn yn cael ei archwilio ymhellach.<br><br>Nododd ST weithiau, mae anghenion pobl ifanc yn wahanol i rai plant, a cynigiodd adran ar wahân i sicrhau yr ymdrinnir yn llawn ag anghenion pobl ifanc.<br><br>Ychwanegodd SLW fod mwy o waith wedi'i gytuno ar ddigartrefedd o ran iechyd a lles fel rhan o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a gofynnodd a fyddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Cynllun Gweithredu a chytunodd CR i drafod yr elfen hon gyda'r tîm rhanbarthol.<br>Bydd y Cynllun Cyflawni Cynllun Ardal yn ddogfen fyw ac mae croeso i gydweithwyr ychwanegu elfennau fel maent yn codi yn ystod y flwyddyn. | |
| 8. | <u>Unrhyw fater arall</u><br>Parthed a Diweddariad BIPBC - Ychwanegodd y Cynghorydd AR bwysigrwydd diweddaru ALlau yn rheolaidd mewn perthynas â bod PBC mewn mesur arbennig a chynigiodd eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol. Cynigiodd y Cyng AR hefyd y dylid gwahodd Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i drafod y goblygiadau hyn o safbwynt yr ALl/BPRh.<br>Cytunodd KH ar bwysigrwydd diweddariadau rheolaidd a chtunodd i eitem sefydlog ar yr agenda i ddeall y goblygiadau ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.<br><br>Atgoffodd CR y bwrdd am y digwyddiad Cynllun Cyfalaf Strategol 10 mlynedd a drefnwyd ar gyfer 22.3.2023 (Clwb Rygbi Bangor). Mae holl aelodau'r BPRhGC wedi cael eu gwahodd i'r digwyddiad sydd â'r nod o roi cyflwyniad a throsolwg o ofynion y Cynllun Cyfalaf Strategol a'r dull o ddatblygu a disgwyliadau BPRhGC i gytuno ar y cynllun terfynol cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Anogir aelodau'r BPRhGC i ddosbarthu'r gwahoddiad yn eang i gydweithwyr a allai fod â diddordeb mewn mynychu. | |

| | | |
|---|---|---|
| 10. | Cafodd y dogfennau canlynol eu cynnwys er gwybodaeth:<br>• Ionawr 2023 - Cofnodion y Grŵp Arweinyddiaeth<br>• Rhagfyr 2022 - Cofnodion Is-Grŵp Plant Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru | |
| | Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener 14 Ebrill 2023 - Cyfarfod ar-lein | |